

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn yr
Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 11 Tachwedd 2019 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Heather Williams ac Emrys Wynne.

42. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson a Dave Snape.

43. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

44. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019 yn gywir.*

45. MATERION YN CODI

Dywedodd y Clerc bod y nam tanddaearol a oedd yn effeithio ar y goleuadau ar Lôn Parcwr wedi'i atgyweirio yn awr.

36. DEWIS Y GOEDEN NADOLIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried enwebu aelod i archwilio a dewis y goeden Nadolig ar gyfer Sgwâr Sant Pedr. Cynigiodd y Cynghorydd Emrys Wynne gyflawni'r dasg.

PENDERFYNWYD: *derbyn cynnig y Cynghorydd Emrys Wynne i fynd i ddewis y goeden Nadolig ar gyfer Sgwâr Sant Pedr a hysbysu'r Dr. Peter Spencer yn unol â hynny.*

47. AROLWG Y MEINCIAU CYHOEDDUS YN RHUTHUN

Cyfeiriwyd at y faint ym Mhen Stryt sydd wedi dymchwel, ac awgrymwyd bod lle addas ar y llwybr i Fro Deg i osod mainc. Penderfynwyd cynnal adolygiad llawn ym mis Mawrth, a llunio cynllun i resymoli ac uwchraddio'r meinciau bryd hynny.

PENDERFYNWYD: *cynnal adolygiad llawn ym mis Mawrth.*

48. TORRI GLASWELLT AC ARDALOEDD BLODAU GWYLLT AR FIN Y Ffordd

Dosbarthwyd adroddiad gan Liam Blazey, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych, i'r aelodau. Bu'r aelodau'n trafod y cynnwys, a gofynnwyd pwy sy'n torri pa ardaloedd a pham. Nodwyd y gall ardaloedd blodau gwyllt ymddangos yn flêr tra'n sefydlu fel ardaloedd blodau gwyllt, a hefyd bod bylbiau cennin Pedr wedi'u plannu yn rhai o'r ardaloedd y cyfeirir atynt.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried hyn yn fanylach cyn anfon tendr torri glaswellt y Cyngor Tref i ddarpar gontractwyr ym mis Chwefror.*

49. MYNWENT LLANRHYDD

Esboniodd y Cynghorydd Emrys Wynne fod beddau yn estyniad y fynwent wedi mynd dan ddŵr unwaith eto yn dilyn y glaw trwm. Esboniodd y Cynghorydd Wynne am y mesurau tymor byr i'w gweithredu, ac awgrymodd ailosod gwrych terfyn a fyddai'n cynorthwyo gyda'r draenio.

PENDERFYNWYD: *anfon llythyr yn mynegi pryder am y sefyllfa i Gyngor Sir Ddinbych.*

50.

Hysbyswyd yr aelodau am neges e-bost a dderbyniwyd gan Llyr Williams, Cadeirydd Cymdeithas Caeau Chwarae Coffa Rhuthun, yn dilyn Cyfarfod Blyneddol y Gymdeithas y noson cynt. Roedd yn amlinellu bod y Gymdeithas wedi cytuno'n unfrydol i osod hysbysiad o'u bwriad i gau'r maes chwarae ddydd Sadwrn, 29 Chwefror 2020, ar y giât a'r ffens, yn gofyn i unrhyw un â diddordeb mewn rheoli'r maes chwarae gysylltu gyda'r Gymdeithas. Byddai ffens ddiogeledd yn cael ei gosod yr wythnos yn dechrau 2 Mawrth os na ddangosir unrhyw ddiddordeb, a chyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Ddinbych i dynnu'r offer chwarae ymaith. Roedd hefyd yn cynnwys cais i'r Cyngor Tref

ystyried cynorthwyo gyda dosbarthu'r hysbysiad i drigolion lleol.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys y neges e-bost.*

51. TÎM TREF TACLUS

Dyddiad y sesiwn nesaf fydd dydd Sul, 1 Rhagfyr 2019. Dywedodd y Maer bod criw craidd sy'n mynychu'n rheolaidd ac eraill sy'n dod pan fo'r dyddiad yn gyfleus iddynt. Awgrymodd, gan fod 12 mis wedi mynd heibio ers sefydlu'r Tîm Tref Taclus, y dylid cynnal digwyddiad cymdeithasol, i'w drefnu gan Reolwr yr Hen Lys.

PENDERFYNWYD: *nodi dyddiad y sesiwn nesaf a chynnal digwyddiad cymdeithasol i ddynodi pen-blwydd cyntaf sefydlu'r Tîm.*

52. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 2 Rhagfyr 2019 am 7:00pm.*